



Polisi Interim Allbynnau Ystadegol

Tachwedd 2017

Rheoli ac Adolygu Fersiynau

Cymeradwywyd y Polisi Interim Allbynnau Ystadegol hwn gan y Bwrdd Rheoli ar 16 Hydref 2017

Datganiad interim yw hwn tra bydd Cymwysterau Cymru yn datblygu ymhellach y ffordd y bydd yn cyhoeddi ystadegau. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau i policy@qualificationswales.org. Noder mai dim ond sylwadau ynglŷn â chyffredinolrwydd y ddogfen hon, yn hytrach na sefyllfaoedd penodol, a gaiff eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

Egwyddorion cyffredinol y Polisi Interim Allbynnau Ystadegol

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r ffordd y bydd Cymwysterau Cymru ("ni") yn cyhoeddi'r allbynnau ystadegol sy'n ymwneud â'r data rydym yn eu casglu ar gymwysterau rheoleiddiedig. Rydym yn casglu data gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig at ddibenion monitro a chydymffurfiaeth ac ar gyfer adolygiadau thematig a sector, fel yr amlinellir yn ein dogfen 'Datganiad Polisi ar Adolygiadau o Gymwysterau ac o'r System Gymwysterau' ac fel y nodir yn ein [Hamodau Cydnabod Safonol](#).

Ein nod yw cefnogi'r system gymwysterau drwy ddarparu amrywiaeth o allbynnau ystadegol a gwasanaethau yn rheolaidd. Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy wneud y canlynol:

- Cyhoeddi data sy'n hygyrch, yn gyson ac wedi'u dogfennu'n llawn;
- Sicrhau bod dadansoddiadau amserol ar gael ac yn seiliedig ar fethodoleg gadarn;
- Meithrin capasiti, gallu a dulliau ymgysylltu;
- Cynhyrchu ystadegau sy'n gredadwy ac felly'n awdurdodol;
- Cynhyrchu ystadegau sy'n berthnasol i'r amrywiaeth o ddefnyddiau y cânt eu cyflwyno iddynt;
- Sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion amrywiol defnyddwyr ac, weithiau, anghenion sy'n cystadlu;
- Cynhyrchu ystadegau a gaiff eu cyflwyno a'u dosbarthu mewn ffyrdd sy'n addas i'r gymuned ehangach;
- Rhagweld ac ymateb i newidiadau i anghenion defnyddwyr.

Mae "Allbynnau Ystadegol" yn cyfeirio at bob ffurf ar gyhoeddiadau sy'n cynnwys data rydym yn eu casglu mewn perthynas â chymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Gall yr allbynnau hyn hefyd gynnwys rhywfaint o ddata nad ydym yn eu casglu, ond a gaiff eu casglu gan rheoleiddwyr eraill. Cyflwynir ein hallbynnau ar nifer o ffurfiau:

- Datganiadau ystadegol rheolaidd sy'n cynnwys data sy'n cael eu casglu'n rheolaidd;
- Adroddiadau thematig;
- Sesiynau briffio, bwletinâu a delweddau.

Cynnwys

Sut rydym yn ymgysylltu â defnyddwyr ein hystadegau	4
Prisio a ffurf allbynnau	4
Gweld ystadegau cyn eu rhyddhau	4
Rhag-gyhoeddi'r allbynnau	5
Amseru'r cyhoeddiadau	5
Marciau diogelwch	5
Uniondeb	5
Y Gymraeg	6
Talgrynnu	6

Sut rydym yn ymgysylltu â defnyddwyr ein hystadegau

1. Mae ein hystadegau o ddiddordeb arbennig i'r canlynol:
 - Cymwysterau Cymru
 - Rheoleiddwyr cymwysterau eraill
 - Cyrff dyfarnu cydnabyddedig
 - Llywodraeth Cymru
 - Darparwyr dysgu
 - Cyrff eraill sydd â diddordeb ym myd addysg yng Nghymru
 - Ymchwilwyr
 - Y cyfryngau
 - Dysgwyr
 - Rhieni a Gwarcheidwaid
2. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr ac, o ganlyniad, rydym yn disgwyl cael gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Rydym yn annog adborth gan ddefnyddwyr ar bob un o'n hallbynnau ystadegol a byddwn yn monitro adborth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw broblemau.
3. Mae ein presenoldeb ar-lein yn ffordd o hysbysu defnyddwyr o'n hallbynnau a datblygiadau newydd. Rydym yn bwriadu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn ceisio barn ac ysgogi trafodaeth ar unrhyw newidiadau arfaethedig.
4. Rydym yn cyfleu unrhyw newidiadau disgwylidig i'n dulliau casglu data ac allbynnau i ddefnyddwyr drwy hysbysiadau cyffredinol ar ein gwefan.
5. Rydym yn sicrhau bod gan ein staff y wybodaeth ddiweddaraf am ein hallbynnau mewn sesiynau rhannu a drwy ein mewnwyd.

Prisio a ffurf allbynnau

6. Mae ein holl allbynnau ystadegol ar gael yn hwylus ar ein gwefan.

Gweld ystadegau cyn eu rhyddhau

7. Mae [Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau \(Cymru\) 2009](#) yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gael hyd at bum diwrnod gwaith (hyd at 24 awr yn achos ystadegau sy'n sensitif i'r farchnad) i weld allbynnau'n gynnar, ynghyd â'u swyddogion. Yr unig reswm dros hyn yw sicrhau y gall

Gweinidogion ymateb yn llawn pan fydd cwestiynau'n codi ar adeg cyhoeddi. Rydym yn cadw cofnod o Weinidogion â'u swyddogion sydd wedi cael gweld pob allbwn, er mwyn i'r cyhoedd graffu arno.

8. Gellir caniatáu hefyd i nifer cyfyngedig o swyddogion weld yr ystadegau'n gynnar yn ystod y gwaith o sicrhau ansawdd y data. Caiff llwybr archwilio cywir ei gynnal a hysbysir y swyddogion hynny sy'n cael deunydd heb ei ryddhau, o'u cyfrifoldebau o ran cyfrinachedd.

Rhag-gyhoeddi'r allbynnau

9. Caiff dyddiadau cyhoeddi eu nodi ymlaen llaw ar ein gwefan.

Amseru'r cyhoeddiadau

10. Ein nod yw cyhoeddi ein hallbynnau ystadegol ar ein gwefan am 9.30am ar ddiwrnod gwaith arferol. Caiff y cyhoeddiad hefyd ei nodi mewn e-bost at ddefnyddwyr hysbys yr ystadegau a thrwy ein [cyfrif Twitter](#).

Marciau diogelwch

11. Cyn eu cyhoeddi, caiff pob allbwn sy'n cynnwys ystadegau nad ydynt yn gyhoeddus, ei farcio'n 'SWYDDOGOL-SENSITIF'. Ceir datganiad safonol ar gyfer pob achos o weld ystadegau cyn cyhoeddi gan Gweinidogion a'u swyddogion gan bwysleisio na ddylid eu hanfon ymlaen at unrhyw un arall ac na ddylid cyhoeddi eu cynnwys.

Uniondeb

12. Mae Cymwysterau Cymru yn cydymffurfio'n wirfoddol â Chod Ymarfer ar gyfer ystadegau Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Yn unol ag Egwyddor 3 o'r cod ymarfer, byddwn yn ceisio sicrhau bod pob cam yn y gwaith o gynhyrchu, rheoli a lledaenu ystadegau swyddogol sydd er budd y cyhoedd yn drech na buddiannau sefydliadol, gwleidyddol neu bersonol.
13. Er mwyn bodloni'r egwyddor hon, bydd Cymwysterau Cymru yn ceisio sicrhau yr ymgwymerir â'r ymarferion canlynol wrth gynhyrchu a chyhoeddi allbynnau ystadegol.
 - Byddwn yn cyflwyno allbynnau ystadegol yn annibynnol ar unrhyw ddatganiad neu sylw am ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr allbynnau hynny a sicrhau na chaiff unrhyw ddatganiad neu sylw ei roi i'r wasg na'i gyhoeddi cyn cyhoeddi'r ystadegau;

- Byddwn yn sicrhau bod y rheini sy'n cynhyrchu allbynnau ystadegol wedi'u diogelu rhag unrhyw fuddiannau sefydliadol neu wleidyddol a allai effeithio ar y gwaith o gynhyrchu neu gyflwyno'r ystadegau;
- Byddwn yn sicrhau mai ein Pennaeth Ymchwil a'n Huwch Ystadegydd yn unig fydd yn gyfrifol am benderfynu ar ddulliau, safonau a gweithdrefnau ystadegol;
- Byddwn yn dilyn yr holl oblygiadau statudol a chanllawiau sydd wedi'u cymeradwyo'n rhyngwladol wrth lywodraethu'r gwaith o gasglu data, cyfrinachedd, a chyhoeddi, a byddwn yn cydymffurfio'n wirfoddol â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig;
- Byddwn yn ymateb i gwynion sy'n ymwneud ag uniondeb, ansawdd neu safonau proffesiynol drwy hysbysu'r Ystadegydd Cenedlaethol a thrwy gynnal adolygiad mewnol yn gyntaf;
- Byddwn yn rhoi rheolau hyfforddiant a rheoli staff ar waith er mwyn sicrhau na fydd unigolion yn camfanteisio ar yr ymddiriedaeth a roddir ynddynt er budd eu hunain;
- Byddwn yn hyrwyddo diwylliant y gall ein harbenigwyr ystadegol roi sylwadau ar faterion ystadegol, gan gynnwys camddefnyddio ein hystadegau, yn gyhoeddus.

Y Gymraeg

14. Caiff ein cyhoeddiadau ystadegol rheolaidd eu cynhyrchu'n ddwyieithog , a byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein holl allbynnau ystadegol ar gael yn ddwyieithog ar yr un pryd. Byddwn yn ymateb i geisiadau yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno i ni.

Talgrynnu

15. Byddwn yn talgrynnu cyfrifiadau i'r 5 agosaf er mwyn lleihau'r risg y gallai unigolion neu sefydliadau gael eu hadnabod o'r data yn ein hallbynnau ystadegol. Os bydd cyfrifiad yn llai na 5 ond yn fwy na 0, byddwn yn defnyddio '*' i ddatgelu'r ffigur, neu ddadansoddiadau cyfun priodol i osgoi rhifau bach lle y bo'n bosibl.